

# Dogfen Ymgynghori ar Ysgol Uwchradd y Dwyrain 2013/14



**12 Rhagfyr 2013 - 22 Ionawr 2014**

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille neu ar fformat sain.

Gellir hefyd roi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill yn ôl yr angen.

Er mwyn tefnu hyn, ffoniwch 029 2087 2720.



# Cyflwyniad

Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer disgyblion 11 – 16 oed. Enw'r ysgol newydd fydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bwriedir cyflawni hyn ar y cyd ag adeiladu cyfleusterau ôl 16. Caiff y ddarpariaeth ôl 16 ei darparu gan Goleg Caerdydd a'r Fro a darparwyr arfaethedig eraill megis Coleg Dewi Sant. Mae gwella safonau addysg ledled y ddinas yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae codi Ysgol Uwchradd y Dwyrain, sef ysgol newydd sbon fodern mewn lleoliad addas yn y ddinas, yn elfen allweddol o'r gwaith hwn. Nod y Cyngor yw cynnig y cyfleusterau dysgu gorau posibl i blant a phobl ifanc a bydd ysgol newydd fodern a fydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ôl-16 ar yr un safle yn trawsnewid cyfleoedd i bobl ifanc.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ddysgu am yr opsiynau ar gyfer safle adeilad newydd yr ysgol, i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut mae symud ymlaen. Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu safbwyntiau am y cynnig. Mae'r rhai y mae'r Cyngor yn ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses hon yn cynnwys y canlynol:

- Plant a phobl ifanc yn yr holl ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Rhieni/gofalwyr y disgyblion sy'n mynychu'r holl ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Staff ysgol yn yr holl ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Trigolion lleol
- Aelodau Etholedig (Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol)
- Yr Eglwys yng Nghymru a Chyfarwyddwyr yr Awdurdod Esgobaethol Catholig
- Awdurdodau lleol cyfagos
- Ysgolion o fewn radiws o ddwy filltir i safle presennol Ysgol Uwchradd y Dwyrain
- Estyn
- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Consortiwm Addysgol Rhanbarthol
- Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Undebau Llafur
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Dewi Sant
- Cymunedau yn Gyntaf

## Mae Eich Barn yn Bwysig

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl. Gallwch wneud hyn drwy fynychu un o'r cyfarfodydd uchod, a/neu drwy lenwi Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad, sydd ar dudalen 17 yn y ddogfen hon.

## Sut mae cael gwybod mwy a rhoi eich barn?

Mae cyfarfodydd a sesiynau galw i mewn wedi cael eu trefnu er mwyn egluro'r cynnig. Mae'r rhain yn cael eu trefnu er mwyn i chi allu gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi. Hefyd cewch gyflwyno eich safbwyntiau yn ysgrifenedig.

Trefnir sesiynau gweithdai hefyd gyda phlant oedran uwchradd a chynradd sy'n mynychu ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain, er mwyn cynnig cyfle i ddisgyblion ofyn cwestiynau a dysgu mwy am y cynnig a chyflwyno eu safbwyntiau.

Mae manylion dyddiadau cyfarfodydd yr ymgynghoriad wedi'u nodi isod:

Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad /Amser	Lleoliad
Cyfarfod Cyhoeddus	08 Ion 2014 6.30 – 8pm	Canolfan Hamdden y Dwyrain
Sesiwn galw i mewn	17 Rhag 2013 1 – 3pm	Llyfrgell Lloneirwg
Sesiwn galw i mewn	18 Rhag 2013 2 – 4pm	Llyfrgell Llanrhymni
Sesiwn galw i mewn	19 Rhag 2013 11 – 1pm	Llyfrgell Tredelerch
Sesiwn galw i mewn	07 Ion 2014 5 – 7 pm	Canolfan Hamdden y Dwyrain
Sesiwn galw i mewn	09 Ion 2014 5 – 7pm	Llyfrgell Lloneirwg
Sesiwn galw i mewn	13 Ion 2014 5 – 7pm	Llyfrgell Tredelerch
Sesiwn galw i mewn	15 Ion 2014 5 – 7pm	Canolfan Hamdden y Dwyrain
Sesiwn galw i mewn	17 Ion 2014 11 – 1 pm	Llyfrgell Llanrhymni
Sesiwn galw i mewn	18 Ion 2014 10 – 1pm	Canolfan Hamdden y Dwyrain

## Cefndir y cynnig

Ar 18 Ionawr 2013, cyhoeddodd y Cyngor hysbysiad statudol ar gyfer y canlynol:

- Terfynu Ysgol Uwchradd Llanrhymni, Ball Road, Llanrhymni o fis Awst 2014 ymlaen
- Terfynu Ysgol Uwchradd Tredelerch, Heol Casnewydd, Tredelerch o fis Awst 2014 ymlaen
- Sefydlu ysgol uwchradd 8 Dosbarth Mynediad yn eu lle ar gyfer disgyblion 11-16 oed (i ddechrau) ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch, Heol Casnewydd, Tredelerch o fis Medi 2014 ymlaen

Hefyd, gofynnodd Cabinet y Cyngor i'r swyddogion ymgymryd â dadansoddiad llawn o'r safleoedd posib sydd ar gael ar gyfer adeiladu ysgol newydd.

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r Hysbysiad Statudol ac, ar 11 Ebrill 2013, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor weithredu'r cynnig.

Ar 15 Mai 2013, cyhoeddodd Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru y byddai'n rhoi cyfarwyddyd ffurfiol i'r Cyngor i gau Ysgol Uwchradd Llanrhymni o fis Awst 2013 ymlaen.

Fel ymateb i'r cyfarwyddyd hwn, cafodd y trefniadau i gau Ysgol Uwchradd Llanrhymni eu gweithredu a throsglwyddwyd y disgyblion i gyd, ar wahân i'r rhai a oedd wedi gwneud cais llwyddiannusnam lefydd yn rhywle arall, i Ysgol Uwchradd y Dwyrain (Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt) fis Medi 2013, flwyddyn ynghynt nag a gymeradwywyd yn flaenorol gan Gabinet y Cyngor, gyda gweddill y cynnig eto i gael ei weithredu yn unol â'r bwriad.

Mae Cyngor Caerdydd yn bwriadu adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer disgyblion 11 – 16 oed. Enw'r ysgol newydd fydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Bwriedir cyflawni hyn ar y cyd ag adeiladu cyfleusterau ôl 16. Caiff y ddarpariaeth ôl 16 ei darparu gan Goleg Caerdydd a'r Fro a darparwyd arfaethedig eraill megis Coleg Dewi Sant. Byddai'r ysgol 11-16 oed yn cymryd lle'r cyfleusterau presennol ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain, sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd ar y safle a elwid gynt yn safle Ysgol Uwchradd Tredelerch. Hefyd, cynigir dymchwel cyfleusterau presennol Coleg Caerdydd a'r Fro ac adeiladu cyfleusterau ôl 16 newydd i'w rheoli gan Goleg Caerdydd a'r Fro.

## Opsiynau ar gyfer safle adeilad newydd yr ysgol

Mae dau safle wedi cael eu dewis fel opsiynau addas i ymgynghori arnynt.

Dyma'r ddau safle (yn nhrefn yr wyddor):

- **Safle Coleg Caerdydd a'r Fro ar Heol Trowbridge, Tredelerch**
- **Safle hen Ysgol Uwchradd Llanrhymni ar Ball Road, Llanrhymni**

Y dyddiad targed ar gyfer agor ysafle newydd yw mis Medi 2016.

## Sut dewiswyd y ddau safle i ymgynghori arnynt?

Cafodd yr holl safleoedd posib yn nalgylch arfaethedig yr ysgol newydd eu datgan a pharatowyd y rhestr ganlynol o safleoedd posib:

- Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni
- Safle Ysgol Uwchradd Tredelerch
- Safle Coleg Caerdydd a'r Fro
- Tir rhwng Heol Crughywel a Willowbrook Drive, Llaneirwg
- Tir yn ardaloedd 9-12, Llaneirwg
- Trowbridge Mawr (Tir i'r gorllewin o Heol Trowbridge, i'r de o Barc Greenway ac i'r gogledd o Heol Gwynllŵg)

Rhannwyd y wybodaeth am y safleoedd posib hyn gydag Aelodau, ysgolion, rhieni, swyddogion cyngor ac undebau llafur drwy lythyr, a oedd yn cynnwys map yn tynnu sylw at y safleoedd. Rhannwyd y wybodaeth hon hefyd gyda'r gymuned ehangach drwy gyfres o arddangosfeydd a sesiynau galw i mewn i'r cyhoedd ble'r oedd y swyddogion ar gael i ateb cwestiynau. Cyhoeddwyd manylion y safleoedd, y meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio hefyd ar wefan y Cyngor.

## Rhoi sgoriau ymlaen llaw

Aseswyd y safleoedd yn erbyn nifer o feini prawf llwyddo/methu a oedd wedi cael eu datblygu gan dîm amlddisgyblaethol proffesiynol o dan arweiniad swyddogion y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys maint cyffredinol y safle, parthau priodol ar gyfer ysgol a gwerth hamdden i'r cyhoedd. Teimlid bod methu mewn un maen prawf unigol yn atal y safle rhag bod yn addas ar gyfer datblygu'r adeiladau newydd arno.

Cafodd y safle a enwyd fel Tir rhwng Heol Crughywel a Willowbrook Drive, Llaneirwg ei eithrio yn y cam hwn. Er bod y safle'n ddigon mawr i gynnwys ysgol o'r maint sydd wedi'i gynnig, nid oes digon o le i'r caeau chwarae gofynnol ac mae diffyg opsiwn arall addas yn agos at y safle, ar wahân i safleoedd eraill a oedd yn cael eu hystyried fel safleoedd posib ar gyfer datblygu'r adeiladau newydd.

## Rhoi Sgoriau

Roedd y safleoedd llwyddiannus yn yr asesiad sgorio ymlaen llaw yn cael eu harchwilio wedyn a rhoddwyd sgoriau iddynt yn seiliedig ar nifer o feini prawf y penderfynwyd arnynt gan y tîm ac y credid eu bod yn cyfrannu at lwyddiant neu fethiant tebygol y prosiect. Mae'r meini prawf hyn wedi'u grwpio'n eang i saith categori:

- Ystyriaethau ffisegol
- Ystyriaethau cymdeithasol
- Ystyriaethau Ariannol, Cyfreithiol, Strategol
- Ystyriaethau mynediad
- Ystyriaethau amgylcheddol

- Ystyriaethau Esthetig/Cynllunio
- Ystyriaethau gwasanaethu

Roedd pob categori'n cynnwys nifer o gwestiynau a oedd yn cael sgôr o 0 i 4 ac roedd pob cwestiwn yn cael ei bwysoli gan ddibynnu ar ba mor bwysig yr oedd yn cael ei ystyried i lwyddiant y prosiect. Er enghraifft, roedd cwestiwn am wasanaethau trydan i'r safle'n cael llai o bwys na chwestiwn am agosrwydd at y boblogaeth o ddisgyblion, oherwydd mae modd darparu trydan yn gymharol hawdd ar safle ond efallai na fydd mor hawdd rhoi sylw i broblemau cysylltiedig â phellter teithio'r disgyblion.

Roedd yr ymarfer sgorio'n eang ac yn dechnegol, gyda'r nod o sefydlu pa safleoedd oedd yn briodol ar gyfer ystyriaeth bellach. Daeth yr ymarfer i'r casgliad y gellid rhoi ystyriaeth resymol i'r tri safle canlynol (sydd wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor) fel safleoedd posib ar gyfer adeiladu ysgol a chyfleusterau ôl 16 newydd arnynt:

- Safle Coleg Caerdydd a'r Fro
- Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni
- Safle Ysgol Uwchradd Tredelerch

## Gwerthusiad

Wrth ystyried pa rai o'r tri safle yma ddylai fod yn rhan o ymgynghoriad, awgrymwyd bod y Cabinet yn rhoi ystyriaeth benodol i'r ffactorau canlynol (wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor):

- Mynediad i/effaith ar y defnydd o gaeau chwarae oddi ar y safle, sy'n ofynnol ar gyfer y tri safle os yw'r ysgol i gynyddu i 11 Dosbarth Mynediad
- Tarfu ar safleoedd a ddefnyddir wrth wneud y gwaith adeiladu
- Costau net, gan ystyried amcangyfrif o dderbyniadau cyfalaf, ac felly fforddiadwyedd
- Potensial ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau cymunedol eraill o bosib
- Agosrwydd at y boblogaeth o ddisgyblion

Roedd y pryderon am y defnydd o Gae Hamdden Tredelerch ar gyfer darpariaeth o gaeau chwarae oddi ar y safle pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch, ac am gost net adeilad yr ysgol ar safle Ysgol Uwchradd Tredelerch yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael, yn cael eu hystyried fel anfanteision o arwyddocâd mor fawr fel bod argymhelliad wedi cael ei wneud i beidio â'i gynnwys fel opsiwn priodol ar gyfer ymgynghori yn ei gylch. Fodd bynnag, mae safle Coleg Caerdydd a'r Fro a safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn cael eu hystyried yn opsiynau addas ar gyfer ymgynghori yn eu cylch.

**Mae'r gwerthusiad canlynol yn ymwneud â'r ffactorau a amlinellwyd uchod ac, os yw hynny'n ymarferol, cyfeirir yn gyffredinol at y safleoedd yn nhrefn yr wyddor.**

## Mynediad i/effaith ar ddefnyddio caeau chwarae oddi ar y safle

Mae lle i'r adeiladau sydd i gael eu hadeiladu ar y ddau safle ond byddai'r ddau'n gorfod cael mynediad i rywfaif o leiaf o gyfleusterau chwarae oddi ar y safle pe bai'r ysgol yn tyfu i 11 Dosbarth Mynediad neu gynnwys cyfleusterau cymunedol arwyddocaol.

Byddai safle Coleg Caerdydd a'r Fro angen defnyddio Parc Greenway, sydd ychydig bellter i ffwrdd ar draws ffordd gymharol fechan sy'n rhoi mynediad i ardaloedd preswyl y gallai eu graddfa gynyddu, gan ddibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad y Cynllun Datblygu Lleol. Mae defnyddio Parc Greenway'n cael ei ystyried fel budd posib i'r gymuned oherwydd nid oes cyfleusterau newid yn y caeau ar hyn o bryd ac nid ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw chwaraeon wedi'u trefnu.

Byddai'n rhaid i safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni ddefnyddio rhai caeau cyfagos, fel y rhai a ddefnyddir gan Brifysgol Caerdydd a/neu Glwb Rygbi Tredelerch. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn broblem. Os na chaiff y safle hwn ei ddewis ar gyfer yr adeilad newydd, dylid nodi hefyd y byddai'r ardaloedd o laswellt yn dod ar gael ar gyfer y gymuned.

Felly, credir y byddai'r cyfleusterau ar gyfer caeau chwarae oddi ar y safle mewn perthynas â safleoedd Coleg Caerdydd a'r Fro ac Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn addas.

# Tarfu ar safleoedd a ddefnyddir wrth wneud y gwaith adeiladu

Byddai'n rhaid gallu defnyddio safle Coleg Caerdydd a'r Fro drwy gydol y gwaith o adeiladu cyfleusterau newydd. Er y byddai hyn yn arwain at rai cyfyngiadau o ran cynllunio cydffurfiad y cyfleusterau, ac yn gofyn am waith cynllunio gofalus ar y trefniadau, ni chredir fod yr her hon yn ddigonol i ddiystyru'r safle hwn.

Byddai safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn wag o bosib ond fe allai hefyd barhau'n lleoliad i gyfleusterau ieuentid a/neu gae bob tywydd. Felly, mae'r safle hwn yn llai cyfyngedig o ran y defnydd ohono ond, oherwydd y materion cysylltiedig â'r gorlifdir, mae'n arwain er hynny at raddfa debyg o ran arwynebedd ar gyfer cynllunio ac adeiladu cyfleusterau newydd.

Credir felly na fyddai'r naill safle na'r llall yn peri problemau gormodol o ran datblygu, ond y byddai lefel is o weithgarwch ar safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn ei wneud yn safle haws ar gyfer cynllunio trefniadau'r gwaith adeiladu.

## Costau net, gan ystyried amcangyfrif o dderbyniadau cyfalaf, ac felly fforddiadwyedd

Mae dadansoddiad o'r cyllid sydd ar gael (gan gynnwys elw o werthu tir, cyllid y Cyngor a grant Llywodraeth Cymru), yn seiliedig ar amcangyfrifon cyfredol a'r ffigurau hysbys, yn dangos y byddai cost Gyfalaf net y gwaith adeiladu ac ati ar naill ai safle Coleg Caerdydd a'r Fro neu safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn bosib oddi mewn i'r darpariaethau presennol.

Mae'r tabl isod yn dangos y gofyniad cyfalaf net\* a amcangyfrifir ar gyfer y ddau safle:

Opsiw	Gofyniad Cyfalaf Net £ miliwn
1. Safle Coleg Caerdydd a'r Fro	17.342
2. Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni	14.559

\* Y Gofyniad Cyfalaf Net yw'r gwariant Cyfalaf a amcangyfrifir llai'r adnoddau penodol tybiedig sy'n cefnogi'r cynnig, gan gynnwys Derbyniadau Cyfalaf, cyllid y Rhaglen Gyfalaf a grant Ysgolion yr 21ain Ganrif.

## Potensial ar gyfer datblygu yn y dyfodol

Mae gwerthusiad technegol helaeth wedi cael ei gynnal ar y ddau safle ac maent yn cael eu hystyried fel safleoedd sy'n cynnig digon o botensial i'r ysgol ehangu i 11 Dosbarth Mynediad a chyfleusterau ôl 16. Byddai ysgol o'r maint yma'n bodloni'r galw gan dai sy'n cael eu hadeiladu ar unrhyw un o'r safleoedd heb eu dewis ar gyfer adeiladu'r ysgol arnynt a hefyd ar gyfer elfen bellach o ddatblygu tai yn lleol a'r cynnydd posib mewn galw am addysg gymunedol cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, os daw yn amlwg y bydd y galw disgwylidig yn sylweddol uwch nag 11 Dosbarth Mynediad, byddai'n rhaid ystyried gwneud darpariaeth yn rhywle arall. Ni fyddai cynyddu maint yr ysgol yn sylweddol y tu hwnt i 11 Dosbarth Mynediad yn cael ei argymhell.

## Agosrwydd at y boblogaeth o ddisgyblion

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno dadansoddiad o bellteroedd yn ôl llwybrau cerdded diogel o gartrefi'r disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Uwchradd Llanrhymni a Thredelerch o'u dalgyloedd fis Mawrth 2012.

Bydd lleoliad manwl cyfeiriadau cartref y disgyblion yn newid o flwyddyn i flwyddyn ond credir fod y tabl yn cynrychioli mesur priodol yn seiliedig ar y dewisiadau presennol. Pe bai'r tabl yn cael ei seilio ar grwpiau ysgolion cynradd neu grwpiau cyn oedran ysgol, ni fyddem yn gwybod pa gyfeiriadau i'w diystyru ar sail dewis rhieni. Fodd bynnag, byddai'n rhesymol nodi bod y dewisiadau cyfredol ar gyfer mynychu'r naill neu'r llall o'r ddwy ysgol uwchradd yn debygol o adlewyrchu'n deg batrymau cyson o ddsbarthiad ar draws y cymunedau.

## Safleoedd y dwyrain: pellteroedd llwybrau cerdded diogel o'r cartref i'r ysgol. Ffynhonnell y data: EMS One Live, Mawrth 2012

Y disgyblion ar y gofrestr sy'n byw yn y dalgylch	Ysgol Uwchradd Llanrhymni (2 fynedfa)	Safle Coleg Caerdydd a'r Fro (2 fynedfa)
Cyfanswm y Disgyblion	1006	1006
Cyfartaledd	1.34	0.97
Isafswm	0	0
Uchafswm	2.842	1.792
# < 0.5 milltir	74	167
# > 0.5 milltir	932	839
# < 1 milltir	348	490
# > 1 milltir	656	516
# > 3 milltir	0	0
<b>Canran y disgyblion o fewn hanner milltir i safle'r ysgol</b>	<b>7.4%</b>	<b>16.6%</b>
<b>Canran y disgyblion o fewn milltir i safle'r ysgol</b>	<b>34.6%</b>	<b>48.7%</b>

O ran y pellter teithio ar gyfartaledd i'r disgyblion, mae'r tabl yn dangos bod safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni gryn dipyn pellach i ffwrdd o ble mae disgyblion yn byw ac, ar gyfartaledd, 38 % ymhellach i ffwrdd o gymharu â safle Coleg Caerdydd a'r Fro.


O ran uchafswm y pellter, mae safle Coleg Caerdydd a'r Fro 37 % yn nes na safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni at y cyfeiriadau a fesurwyd.

Felly credir mai safle Coleg Caerdydd a'r Fro sydd yn y lleoliad gorau i wasanaethu dalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain, gyda safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni gryn dipyn yn llai addas.

# Darluniau dangosol


## Dewis Cysyniad Dalblygu Dangosol Safle Coleg Caerdydd a'r Fro 8DM-11DM a chyfleusterau Ôl-16

Cynllun adeilad 8DM dangosol gydag estyniad posibl i adeilad 11DM a dangosol mewn pinc ysgafh a fewn y llinell doredig. Caeau chwarae ychwanegol posibl ar gyfer 11DM fel y dangosir.



## Dewis Cysyniad Dalblygu Dangosol Safle Ysgol Uwchradd Llannymyri 8DM-11DM a chyfleusterau Ôl-16

Cynllun adeilad 8DM dangosol gydag estyniad posibl i adeilad 11DM a dangosol mewn pinc ysgafh a fewn y llinell doredig. Caeau chwarae ychwanegol posibl ar gyfer 11DM fel y dangosir.






# Mae'r ffactorau canlynol yn berthnasol i'r ddau safle.

## Trefniadau'r Dalgylch

Mae'n fwiad i ddalgylch yr ysgol gynnwys dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Llanrhymni ac Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt.



Map: Trefniadau dalgylchoedd dangosol

 Dalgylch dangosol Ysgol Uwchradd y Dwyrain

**1.** Hen safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni

**2.** Safle Coleg Caerdydd a'r Fro

Atgynhychwyd o tap yr arolwg ordnans gyda chariadâd Rheolwr Llyfrs Eri Mawrthdi. Hawffraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyriad neu gamau siŵl.

Cynhyrchwyd y copi hwn yn benodol i gyflwyni gwybodaeth y Cyngor. Ni chaniateir cynhyrchu rhagor o gopïau.

CYNGOR SIR CAERDYDD  
Rhif Trwydded LA09005L

## Ansawdd a Safonau

Byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern o safon uchel, a fyddai'n gallu cefnogi cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys a bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae disgwyl i'r ysgol newydd ddenu arweiniad, rheolaeth a dysgu o ansawdd uchel. Nid oes disgwyl unrhyw effaith ar ansawdd a safonau'r ysgolion cymunedol eraill yn yr ardal yn sgil penderfyniad i adeiladu ar y naill safle neu'r llall.

## Beth yw'r manteision addysgol?

Disgwylir y manteision canlynol:

- Creu ysgol hyfyw sy'n gallu cyflwyno cwricwlwm llawn.
- Adeilad newydd cwbl fodern sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif ac wedi'i gynllunio gan feddwl am anghenion amrywiol y cwricwlwm modern.
- Profiad dysgu i'r disgyblion sy'n elwa o ddefnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf a chyfleusterau modern.
- Darpariaeth ôl 16 ar y safle.
- Cynnig cyffrous ac atyniadol yn yrfaol i arweinwyr ysgol ac athrawon o ansawdd uchel.
- Llai o darfu ar weithgareddau ysgol parhaus wrth wneud y gwaith adeiladu.

## Anfanteision posib y cynnig hwn

Tagfeydd traffig posib o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau/diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol er mwyn datblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posib.

## Y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig

- Efallai na fydd y derbyniadau cyfalaf yn cael eu gwireddu i'r gwerth a ddisgwylir.
- Methu cyflwyno'r adeilad newydd oddi mewn i'r gyllideb ac erbyn y dyddiad targed.

## Yr opsiynau eraill a ystyriwyd

Ceir rhestr o'r holl safleoedd posib a ystyriwyd ar gyfer yr ysgol newydd ar dudalen 4.

## Tir ac adeiladau

Mae Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cadarnhau'r canlynol:

- pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro, byddai'r Coleg yn trosglwyddo'r safle i fod yn eiddo i'r Cyngor am 'ddim gwerth'; neu
- pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni, byddai'r Coleg yn cael gwared ar ei safle\* a byddai'r elw o'r gwerthiant yn dod ar gael fel cyfraniad Cyfalaf at y prosiect.

Pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro, byddai'r ardal ar safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni ble mae cyfleusterau'r ysgol a'r ganolfan ieuentid wedi'u lleoli'n cael eu gwaredu, gyda gweddill y safle'n dod yn barc cyhoeddus. Gellir gweld yr ardal hon ar y darlun ar dudalen 8.

\* Gellir gweld safle Coleg Caerdydd a'r Fro y ceid gwared arno pe bai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni ar y darlun ar dudalen 8.

Mae'r rhan honno o safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni y byddai'n rhaid cael gwared arni os caiff yr ysgol newydd ei chodi i'w gweld ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro. Mae llun o'r safle ar y ail lun.

## Rhestr o gyfleusterau posib yn yr ysgol newydd

Mae rhestr o gyfleusterau posib sy'n cael eu hystyried fel rhan o gynllun yr ysgol newydd wedi'u rhestru isod:

Ystafelloedd dosbarth	Ystafelloedd TG/astudiaethau busnes	Labordai gwyddoniaeth
Ystafelloedd Celf	Ystafelloedd Dylunio a Thechnoleg	Ystafelloedd Cerddoriaeth
Stiwdios Drama	Mannau ar gyfer Adnoddau Dysgu	Neuaddau
Staff a gweinyddu	Storio	Ystafelloedd bwyta/cymdeithasol
Cyfleusterau chwaraeon	Toiledau	Cyfleusterau arlwyo
Offer	Cyfleusterau newid	Cae bob tywydd

Mae rhestr o'r cyfleusterau coleg posib sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun wedi'u rhestru isod:

- **Canolfan Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg**
- **Canolfan Diwydiannau Creadigol** - Stiwdio Ddrama, Parth ffasiwn a thecstilau, Celf, crefft a dylunio, Canolfan Cyfryngau gan gynnwys cynllunio 3D a gemau cyfrifiadurol, Stiwdio ffotograffiaeth a ffilm
- **Gweithdy Adeiladu** - Gwaith coed, Gwaith brics, Peintio ac Addurno
- **Gweithdy Cerbydau Modur**
- **Gofod Hyfforddiant Adwerthu**
- **Gweithdy gwasanaethau peirianeg/trydan/adeiladu**
- **Canolfan arlwyo a lletygarwch** – cegin hyfforddi a bwyty (ar agor i'r cyhoedd)
- **Salon gwallt a harddwch** - (ar agor i'r cyhoedd)
- **Ystafelloedd dosbarth aml-swyddogaeth, ystafelloedd TG a labordai ar gyfer cyflwyno** Safon Uwch, Iechyd, gofal, cymdeithasol a gofal plant, Busnes a TG, Teithio a Thwristiaeth
- **Cyfleusterau eraill ategol** - Canolfan gyrfaedd a siop cyngor (ar agor i'r cyhoedd), Canolfan adnoddau dysgu/llyfrgell, Gwasanaethau myfyrwyr, gan gynnwys cwnsela, Gofod cymunedol/cymdeithasol, Ffreutur a siop, Ystafelloedd staff, storio, ystafell rhwydwaith TG
- **Theatr ddarlithio fawr**

## Yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Dalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain yw Ysgol Uwchradd y Dwyrain (Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt), Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant, Ysgol Uwchradd Teilo Sant yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi manylion am nifer y disgyblion mae'r ysgol yn gallu eu derbyn a gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgol.

Enw'r Ysgol	Math o Ysgol	Cyflwr/Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol	Capasiti
Ysgol Uwchradd y Dwyrain (Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt)	Cyfrwng Saesneg Cymunedol	Boddhaol Mae'r safle'n foddhaol dros dro yn unig	1470
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant	Cyfrwng Saesneg (Gwirfoddol a Gynorthwyir)	Boddhaol	879
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant	Cyfrwng Saesneg (Gwirfoddol a Gynorthwyir)	Adeilad newydd	1440
Ysgol Bro Edern	Cyfrwng Cymraeg Cymunedol	Boddhaol	360 (yn ehangu i 1114)

## Sut effeithir ar ysgolion eraill?

Penderfynodd Cabinet y Cyngor ei fod am adeiladu ysgol newydd sbon ar 11 Ebrill 2013. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gysylltiedig â dewis safle ar gyfer yr ysgol newydd. Er nad yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn mae gan y cynnig i gydleoli cyfleusterau'r adeilad ôl 16 newydd y potensial i wella ansawdd a safon y ddarpariaeth.

Ni ragwelir yr effeithir ar unrhyw ganlyniadau, darpariaeth neu arweinyddiaeth a rheoli yn yr ysgol arall sy'n gwasanaethu dalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn sgil y penderfyniad i adeiladu ar y naill safle neu'r llall.

Fodd bynnag mae'r rhestr isod yn cynnwys gwybodaeth o adroddiadau arolygiadau Estyn ynghyd â sylwadau cryno ar bob ysgol uwchradd sy'n gwasanaethu dalgylch arfaethedig Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Gellir gweld yr adroddiadau llawn ar wefan Estyn yn [www.estyn.co.uk](http://www.estyn.co.uk).

## Ysgol Uwchradd y Dwyrain (Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt)

Cynhaliwyd yr arolygiad Estyn olaf yn Ysgol Uwchradd Tredelerch ym mis Hydref 2008. Roedd yr adroddiad yn dweud bod yr ysgol yn cynnig amgylchedd gofalgwr yr oedd disgyblion yn teimlo'n ddiogel ynddo a lle gallant wneud cynnydd o ran eu dysgu. Bydd Ysgol Uwchradd Tredelerch yn cau yn swyddogol ym mis Awst 2014.

## Ysgol Uwchradd Illtud Sant

Arolygwyd Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant ddiwethaf gan Estyn fis Tachwedd 2012. Bryd hynny, pennwyd bod perfformiad a rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn "anfodhaol".

Mae'r ysgol o dan fesurau arbennig ar hyn o bryd, sy'n golygu monitro tymhorol gan Estyn. Mae'r Awdurdod a Chonsortium Canolbarth y De yn gweithio'n agos gyda'r ysgol er mwyn sicrhau gwelliannau cyflym.

## Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant

Nid yw Ysgol Uwchradd Teilo Sant yr Eglwys yng Nghymru wedi bod yn destun arolygiad Estyn ers mis Ionawr 2008. Yn yr adroddiad hwnnw cafodd Teilo Sant ei disgrifio fel ysgol sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu a bod safon y gofal a gynigir ganddi yn cynnwys nodweddion eithriadol.

Nid yw Teilo Sant wedi cael ei harolygu o dan y fframwaith arolygu newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2010. Mae'r safonau yn yr ysgol yn dechrau dangos arwyddion o wella. Bydd yr ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn yng ngwanwyn 2014.

## Ysgol Bro Edern

Agorodd Ysgol Bro Edern ym mis Medi 2012 a hyd yma nid yw wedi cael ei harolygu gan Estyn. Mae gan yr ysgol ddisgyblion ym mlwyddyn 7 ac 8 ar hyn o bryd ac mae'n gwneud cynnydd da. Caiff yr ysgol ei harolygu gan Estyn maes o law.

Mae Tabl 1 isod yn dangos nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn yr ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu'r ardal leol, a'r niferoedd disgwylidig o ddisgyblion ar y gofrestr.

## Y niferoedd diweddar a disgwylidig ar y gofrestr yn ysgolion uwchradd y gymuned leol

Ysgol	Ionawr 2009	Ionawr 2010	Ionawr 2011	Ionawr 2012	Ionawr 2013	2013/2014 Disgwylidig	2014/2015 Disgwylidig	2015/2016 Disgwylidig	2016/2017 Disgwylidig	2017/2018 Disgwylidig	2018/2019 Disgwylidig	2019/2020 Disgwylidig
Ysgol Uwchradd Llanrhyddi	622	581	539	497	407	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
Ysgol Uwchradd Tredelerch	772	724	693	659	649	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	973	910	889	901	926	981	1041
Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant	726	777	805	822	849	862	854	829	838	845	862	874
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant	1190	1176	1189	1229	1269	1295	1325	1362	1394	1418	1426	1433
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern	Amh	Amh	Amh	Amh	71	155	245	344	439	541	644	685

Pan gynhaliwyd y Cyfrifiad Disgyblion Blynyddol diweddaraf yn 2013, mynychai oddeutu 41% o'r disgyblion 11-16 oed a oedd yn byw yn y dalgylch yr ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg lleol, a mynychai 9% yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, mynychai 44% yr ysgolion Ffydd a mynychai 6% o'r disgyblion ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg mewn rhannau eraill o'r ddinas.

Disgwylir y bydd yr all-lif o ddisgyblion i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg mewn ardaloedd eraill yng Nghaerdydd, symudodd 137 o ddisgyblion 11-16 oed i ysgolion eraill ym mis Ionawr 2013, yn lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r ysgol newydd sbon pa bynnag safle y caiff ei hadeiladu arno. Mae niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill y tu hwnt i'r ardaloedd hyn yn fach ac yn wasgaredig, ac felly disgwylir mai prin fyddai'r effaith ar bob un o'r ysgolion hynny, a chaiff yr effeithiau hynny eu lliniaru gan y cynnydd a ragwelir ym mhoblogaeth yr ardaloedd hynny.

Os bydd nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg sy'n mynd i ysgolion uwchradd ffydd yn gostwng, efallai y bydd rhaid ehangu ysgol newydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain. Credir fod y ddau safle'n cynnig digon o botensial i'r ysgol ehangu i 11 Dosbarth Mynediad a chyfleusterau ôl 16.

Penderfynir ar dderbyn disgyblion i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant ac Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant gan Gorff Llywodraethu'r ysgol unigol. Mae'r ddwy ysgol yma wedi bod yn llawn ers nifer o flynyddoedd ac mae disgwyl i hyn barhau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r galw am lefydd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern, sy'n gwasanaethu'r ardal hefyd, wedi cynyddu ers 2011 ac mae'r ysgol wedi derbyn buddsoddiad. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei weithredu, mae disgwyl i'r galw am lefydd yn Ysgol Gymraeg Bro Edern barhau i godi.

## Trefniadau Dros Dro/Pontio

Bydd Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn parhau ar ei safle presennol nes bydd adeiladau'r ysgol newydd yn barod ar gyfer symud i mewn iddynt. Y dyddiad targed ar gyfer agor yr eiddo newydd yw mis Medi 2016.

# Materion Ariannol

Mae'r paragraffau canlynol wedi'u seilio ar y Goblygiadau Ariannol yn adroddiad Cabinet y Cyngor dyddiedig 10 Hydref 2013. Gellir gweld fersiwn lawn yr adroddiad ar wefan y Cyngor [www.cardiff.gov.uk](http://www.cardiff.gov.uk) neu drwy gysylltu â'r Tîm Trefnu Ysgolion ar (029) 2087 2720.

Amcangyfrifir mai cost Gyfalaf adeiladu'r ysgol newydd a'r ddarpariaeth ôl 16 ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro (o gymryd yn ganiataol na ddefnyddir yr adeiladau presennol) yw £49.464m (gan gynnwys Argyfyngau a Chwyddiant Costau Adeiladu).

Amcangyfrifir mai'r gost Gyfalaf gyfatebol ar hen safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni yw £49.657m (gan gynnwys Argyfyngau a Chwyddiant Costau Adeiladu).

Mae'r model ariannol sy'n sail i'r cynnig yn cynnwys nifer o adnoddau penodol, gan gynnwys Derbyniadau Cyfalaf, cyllid y Rhaglen Gyfalaf a grant Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ei chyfanrwydd wedi cael ei chymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Bydd rhaid i'r Cyngor ddisgwyl canlyniad achos busnes a gyflwynwyd mewn ymgais i sicrhau cyllid cyfalaf.

Mae'r adnoddau Cyfalaf y byddai'r naill opsiwn a'r llall yn eu denu fel a ganlyn:

Opsiw	Cyfanswm yr Adnoddau Cyfalaf £ miliwn
1. Safle Coleg Caerdydd a'r Fro	32.122
2. Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni	35.098

Codir y Cyfalaf net sy'n ofynnol ar ôl caniatáu ar gyfer yr adnoddau hyn drwy Fenthyca Cyfalaf.

Felly, dyma'r gofyniad Cyfalaf net ar gyfer y naill a'r llall o'r opsiynau hyn:

Opsiw	Gofyniad Cyfalaf Net £ miliwn
1. Safle Coleg Caerdydd a'r Fro	17.342
2. Safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni	14.559

Mae gofyniad Cyfalaf net safle Coleg Caerdydd a'r Fro yn unol yn fras â gofyniad Cyfalaf net y Model Ariannol ar gyfer Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ac felly gellid rheoli'r opsiwn hwn gan ddefnyddio'r adnoddau presennol (o'u hychwanegu at y Cyfalaf pellach sydd wedi'i gynhyrchu). Mae opsiwn safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni, sydd â gofyniad Cyfalaf net is, yn bosib hefyd felly.

Ceir sawl risg y dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r dadansoddiad hwn:

- Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer costau adleoli / llety dros dro.
- Bydd rhaid llunio cytundeb ffurfiol ar gyfer cyfraniad Cyfalaf Coleg Caerdydd a'r Fro, gan roi ystyriaeth i unrhyw oblygiadau treth ac ati. Yn yr un modd, bydd rhaid i'r gymeradwyaeth 'mewn egwyddor' fod yn amodol ar gytundeb o delerau priodol rhwng yr Awdurdod a Choleg Caerdydd a'r Fro;
- Efallai y bydd y derbyniadau Cyfalaf gwirioneddol a gyflawnir yn is na'r gwerthoedd a ragdybiwyd;
- Seiliwyd y dadansoddiad ariannol a wnaed at bwrpas adroddiad Cabinet mis Hydref ar adeiladu ysgol 8 Dosbarth Mynediad a chyfleusterau ôl 16. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y potensial i ehangu i 11 Dosbarth Mynediad yn y dyfodol, ond nid yw costau cynyddu'r ysgol i'r maint yma wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn.
- Bydd y dyddiad cwblhau targed, yn seiliedig ar weithio tuag at agor yr ysgol ar gyfer mis Medi 2016, yn galw am rywfaint o waith cynnar yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dylid gallu defnyddio'r gwaith hwn ar gyfer y naill opsiwn neu'r llall ond mae peth risg wrth gwrs wrth greu'r costau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y dewis o safle.

## Goblygiadau Adnoddau Dynol

Nid yw lleoliad Ysgol Uwchradd y Dwyrain a'r goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n codi o hyn yn sylweddol ar hyn o bryd. Dros amser, mae'n bosib y bydd adleoli'r ysgol i adeilad newydd modern yn arwain at gynyddu'r cofrestradau yn yr ysgol a bydd rhaid adlewyrchu hynny yn y lefelau staffio.

Mae safle Coleg Caerdydd a'r Fro a safle hen Ysgol Uwchradd Llanrhymni yn agos at safle presennol Ysgol Uwchradd Tredelerch ac felly ni fydd llawer o darfu ar y trefniadau teithio ar gyfer y staff. Hefyd, mae'r ddau safle'n gwbl hygyrch i staff ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae posib i'r cysylltiadau trafnidiaeth hyn a lleoliad agos y ddau safle at yr M4 helpu gydag unrhyw anghenion recriwtio yn yr ysgol yn y dyfodol.

Bydd rhaid cynnal cyswllt â'r staff yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybod iddynt am y safle sydd wedi'i ddewis a'r trefniadau pontio o'r safle presennol i'r lleoliad newydd.

## Materion Trafnidiaeth

Ni fydd unrhyw ddisgyblion yn cymhwyso am gludiant am ddim os ydynt yn byw yn y dalgylch oherwydd bydd pob disgybl yn byw o fewn 3 milltir o bellter cerdded i naill ai safle Coleg Caerdydd a'r Fro neu safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni.

Bydd yn ofynnol gwella a darparu cyfleusterau croesi ffordd ychwanegol ar hyd Heol Casnewydd ar gyfer y ddau opsiwn. Er hynny, yn seiliedig ar ddemograffeg presennol y disgyblion yn y dalgylch arfaethedig, mae disgwyl y bydd traean o boblogaeth yr ysgol newydd yn byw ar ochr Llanrhymni i Heol Casnewydd a dwy ran o dair yn byw ar ochr Tredelerch, Trowbridge a Llaneirwg i Heol Casnewydd. (Safle Coleg Caerdydd a'r Fro £75k yn fras i Safle Llanrhymni £100k yn fras, cyllid Cyfalaf fydd yn cyllido hyn)).

Felly, bydd rhaid i'r cyfleusterau croesi ychwanegol sy'n ofynnol ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion os yw'r ysgol wedi'i lleoli ar Safle Llanrhymni o gymharu â safle Coleg Caerdydd a'r Fro.

Yn seiliedig ar y rhaniad hwn o ddisgyblion gan fod mwyafrif y disgyblion yn byw ar ochr Tredelerch, Trowbridge a Llaneirwg i Heol Casnewydd, os yw'r ysgol newydd wedi'i lleoli ar safle Coleg Caerdydd a'r Fro, byddai hyn yn galluogi i gyfran fawr o'r rhain naill ai gerdded i'r ysgol neu ddal bws y gwasanaeth lleol sy'n gweithredu ar hyd Heol Greenway.

Gan nad oes unrhyw wasanaethau bws uniongyrchol o ardal Burnham Avenue yn Llanrhymni i safle Coleg Caerdydd a'r Fro, bydd rhaid i rai disgyblion gerdded hyd at 2.4 milltir. Er hynny, byddai dwbl nifer y disgyblion sy'n byw yn ardal Llaneirwg yn wynebu problemau tebyg pe bai'r ysgol yn cael ei lleoli ar safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni, gan nad oes unrhyw wasanaethau bws cyhoeddus uniongyrchol o'u hardal i safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni.

Pe bai angen gwasanaethau bws ysgol er mwyn helpu gyda lleihau tagfeydd traffig a gwella mynediad i ddisgyblion, yna byddai'r costau'n dyblu i gludo disgyblion o ardal Llaneirwg i safle Ysgol Uwchradd Llanrhymni, o gymharu â chostau cludo disgyblion o ardal Burnham Avenue i safle Coleg Caerdydd a'r Fro. (Safle Coleg Caerdydd a'r Fro £70k yn fras am 2 fws i Safle Llanrhymni £140k yn fras am 4 bws, cyllid Refeniw fydd hwn a bydd rhaid ei ystyried fel rhan o'r cynllun ariannol yn y tymor canolig).

Efallai y bydd y ddau safle angen parthau diogelwch ysgol ychwanegol ar y ffyrdd yn union y tu allan i'w safle i ddarparu ar gyfer y nifer ychwanegol o ddisgyblion a fydd yn mynychu. Mae parthau diogelwch ysgolion yn ymwneud â pharcio, cyflymder ar y ffordd a diogelwch cerddwyr a bydd rhaid eu gwella er mwyn lleihau cyflymder cerbydau ar y ffordd ac i sicrhau ei bod yn haws i gerddwyr weld wrth groesi, drwy wella cyfleusterau fel croesfannau sebra, ponciau arafu cyflymder ar y ffordd, mwy o arwyddion a marciau ar y ffordd. Mae'r costau a'r gofynion yn debygol o fod yn debyg ar gyfer y ddau safle (rhwng £50k a 100k – cyllid Cyfalaf fydd hwn).

## Trefniadau Mynediad

Ceir gwybodaeth fanwl am drefniadau mynediad yn llyfryn Mynediad i Ysgolion y Cyngor a gellir gweld y wybodaeth hon ar wefan y Cyngor hefyd ([www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk)).

Mae'n fwriad i ddalgylch yr ysgol gynnwys dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Llanrhymni ac Ysgol Uwchradd Tredelerch gynt.

## Materion Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar gyfer y prosiect adeiladu newydd hwn. Daw i'r casgliad na fyddai darparu eiddo newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn cael effaith niweidiol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Yn y cam cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd, bydd asesiad pellach o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau hygyrchedd yr adeilad newydd. Byddai'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhoi ystyriaeth i bolisiâu fel Deddf Cydraddoldeb 2010, TAN 12: Dylunio Mehefin 2009 a hefyd rheoliadau adeiladu fel BS8300, Rhan M, BB98 a BB102.

## Materion Cynaliadwyedd

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael ei gynnal yn unol â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnwys fel atodiad i asesiad amgylcheddol y cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

## Ystyried yr Effaith Gymunedol

Mae'n rhaid newid cyfleusterau presennol Ysgol Uwchradd y Dwyrain sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd ar safle a elwid yn safle Ysgol Uwchradd Tredelerch. Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol wrth ystyried cynnig: Gofod Agored Cyhoeddus, parcdir, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd y swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i sicrhau bod y cynnig yn osgoi effeithiau negyddol lle bo modd.

**Os ydych yn dymuno siarad â rhywun neu holi rhagor o gwestiynau, gallwch gysylltu â'r Tîm Cynllunio ar gyfer Trefnu Ysgolion ar (029) 2087 2720 neu ar yr e-bost [Ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:Ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk)**

## Dyddiadau allweddol

Beth yw'r dyddiadau allweddol a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'r broses yn gyffredinol?

- Cyfnod ymgynghori
- 12 Rhagfyr 2013 - 22 Ionawr 2014

## Gwanwyn 2014

- Swyddogion yn cyflwyno adroddiad i Gabinet y Cyngor ar ganlyniadau'r ymgynghori
- Cabinet y Cyngor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud penderfyniad ynghylch ar ba safle fydd yr ysgol newydd a'r ddarpariaeth ôl 16 yn cael eu hadeiladu.



# FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD (YSGOL UWCHRADD Y DWYRAIN – SAFLEOEDD)

Mae eich barn chi'n bwysig felly cofiwch ddweud eich barn wrthym drwy gyfrwng y canlynol:

**Llenwi'r holiadur sydd wedi'i atodi a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar waelod y ffurflen.**

Neu cewch anfon eich barn drwy:

**E-bost i [Ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:Ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk)**

**Mae'n rhaid i bob sylw a anfonir yn ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw a chyfeiriad post llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.**

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbynnir yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn, fel enw a chyfeiriad, yn cael ei dileu, fel sy'n briodol. Yr eithriadau fyddai'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau mewn "capasiti swyddogol", fel Cynghorwyr, Penaethiaid Ysgolion, ac ati.

**Gwnewch yn siŵr ein bod wedi derbyn eich ymateb erbyn dydd Mercher 22 Ionawr 2014.**

## Pa mor bwysig i chi yw pob un o'r 5 ffactor canlynol wrth ystyried safle ar gyfer adeiladu ysgol newydd arno?

Opsiynau	Lefel pwysigrwydd 1=Uchel 5=Isel
Mynediad i/effaith ar ddefnyddio caeau chwarae oddi ar y safle	
Tarfu ar safleoedd a ddefnyddir wrth wneud y gwaith adeiladu	
Costau net, gan ystyried amcangyfrif o dderbyniadau cyfalaf, ac felly fforddiadwyedd	
Potensial ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau cymunedol eraill o bosib	
Agosrwydd at y boblogaeth o ddisgyblion	

Pa ffactorau eraill sy'n bwysig i chi wrth ystyried safle'r ysgol yn y dyfodol?

Ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill?

Eich enw: ..... Dyddiad: .....

Cyfeiriad: .....

Cod post: .....

Eich statws:  Rhiant       Llywodraethwr       Arall (ticiwch)  
 Disgybl       Aelod o staff

**Diolch i chi am eich sylwadau.**

**Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 213, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW erbyn 22 Ionawr 2014**